YR YMOFYNYDD

RHYDDID · GWIRIONEDD · CARIAD

Y Gwirionedd a'ch Rhyddha chwi.

RHIF 11.] TACHWEDD 1921. [PRIS 3c.

CYNHWYSIAD.

AR ADEN FFYDD.
Y GWYBEDYN GLAS.
IOLO MORGANNWG.
RHAI O ENWOGION YR HEN FYD.
Y CYFARFODYDD CHWARTEROL.
ARHOLIAD YR YSGOL SUL.
EUOG A'U RHYDD.
BRASLUN O'R GWERSI.
PRIODASAU. MARWGOFION.
MANION AC HANESION.

Llandyssul:
Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer.

YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.

Pris 3c. y mis ; drwy y *Post*, 3s. 6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygydd erbyn y 10fed o bob mis, a goheb iaethau eraill erbyn y 15fed.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr. Mr. J. D. LEWIS Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

GWEITHIAU DR. TUDOR JONES

An Interpretation of Rudolf Eucken's Philosophy.
Price - - 5s.

The Spiritual Ascent of Man.
Price - - 2s. 6d.

The Training of the Mind and Will.
Price - - 2s. 6d.

The Making of Personality.
Price - - 2s. 6d.

What Philosophy is.
Price - - 2s. 6d.

Yr oll i'w cael o —

SWYDDFA'R YMOFYNYDD, LLANDYSSUL.

T. E. Jones & Co.,

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers - - -
& Provender Millers, - -
Merchants, - - - -
Wholesale Grocers, &c. &c.

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y . . .
Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] TACHWEDD, 1921. [CYF. XXI. RHIF 11.

AR ADEN FFYDD.

ABERTH RHIENI.

Nid yw tad yn dad i'w dŷ—oni ŵyr
Am fwynhad rhoi i fyny
Ei hunan ; ca drwy hynny
Ei frawd yn yr angel fry.

Er rhoddi bwyd i'w braidd bach
A'n ufudd i'r ffwrn afiach,
Neu rhwyga o'r graig erwin
Fara'i blant trwy lafur blin ;
Dan fargod y beddrod bydd
Yn wyneb Angau beunydd.

Dirwasgiad y "rhoi ysgol"
I'w lesg wedd a lysg ei ôl ;
O'i oddef ca'i blant addysg,
Ei waed ef sydd ar eu dysg.

Ar ei egni yn ddirwgnach—y bydd
A'r baich gymaint trymach ;
Ei aelwyd fydd yn gynilach—iddo,
A bara yno hefyd yn brinnach.

O Gymru deg ! mawrha di, uwch eu bedd,
Werth a rhinwedd ebyrth rhieni.

Llawer bachgen talentog—a ddringodd
I rengau'r bydenwog,
A'r "hen bobl"—wrol lin—
O'u cyni'n gwasgu ceiniog.

Cariad y fam o'r crud fyn
Wylio antur ei phlentyn ;
Ei haberth geidw'i febyd,
Druan bach rhag dwrn y byd. —ELFED.

Y GWYBEDYN GLAS.

GAN ANTHROPOS.

"All day within the dreamy house
The blue fly sung in the pane."
—*Tennyson.*

I.

Bore heddyw, digwyddodd i mi ddarllen ysgrif mewn papyr Seisnig dan y penawd—"Working to music." Y mae'r awdwr yn cyfeirio at y ffaith mai rhywbeth ar gyfer oriau hamdden oedd miwsig yn arfer bod—rhyw adloniant wedi i waith y dydd fynd drosodd. Gwaith yn gyntaf, a'r gân wedyn. Ond y mae'r Americaniaid wedi anturio ar gynllun newydd, ac ymddengys ei fod yn cael ei fabwysiadu yn y Llythyrdai mawrion, a mannau o'r fath, lle y mae pobl yn gwneyd gwaith distaw, a lled undonog o ddydd i ddydd. Rhoddir offeryn cerdd yn yr adeilad, a gwneir y gwaith yn swn y miwsig.

II.

Y mae yna ryw gynghanedd wedi bod drwy'r oesau rhwng y pethau hyn—gwaith a chân. Cydganai ser y bore pan osodid sylfaeni'r byd. "The city was built to music," ebai Tennyson am ddinas Camelot gynt. Felly y gwnaed, ac y gwneir y gwaith gore ar bob rhandir—yn swn rhyw fiwsig sydd yn disgyn ar glust yr enaid. Weithiau, y mae'r miwsig yn ffrydio o galon y gweithiwr ei hun, fel bwrlwm y ffynnon ar lechwedd y bryn. Clywir y bachgen sydd yn gwasgar y "papyr newydd" ar ben bore yn chwiban ar ei hynt. Ac y mae ei chwiban ysgafndroed ef, lawer bore, yn well na phobpeth sydd yn y newyddiadur. "Give me the man who sings at his work," ebai Carlyle. Dyn lled brin ydyw hwnw yn y dyddiau presennol. Haws grwgnach na chanu. Gallai llawer un—pe yn ddigon gonest—gyfarch ei waith beunyddiol fel yr oedd Ahab yn cyfarch Elias y Thesbiad—"A gefaist ti fi, O! fy ngelyn."

III.

Ond pan fo dyn yn methu canu gyda'i waith, na dim arall, y mae yn dda iddo gael cynorthwy o'r tu allan iddo ei hun. Nid ydyw gweision y Llythyrdy yn yr Amerig yn canu eu hunain gyda'u gwaith, ond daw y miwsig atynt trwy gyfryngau priodol. Ac y mae hwnnw yn cael ei gyfaddasu, o ran ei nodwedd a'i ysbryd, ar gyfer oriau eu llafur. Yn y bore, clywir miwsig tyner, mwyn. Ond yn yr hwyr wedi i'r egnion ballu, daw miwsig gwahanol—tebyg i eiddo'r seindorf ar flaen y fyddin.

IV.

Miwsig celfyddydol ydyw hwnnw: miwsig yn cael talu am dano wrth yr awr, fel y telir am unrhyw waith arall. Nis gallaf fi archebu hwnnw, ac nid oes ynnof un awydd am dano. Y mae'r miwsig a ddaw i'r ystafell fechan hon yn dyfod o fyd yr adar, a'r awel yn y coed. Ond y mae i hwnnw ei lanw a'i drai. Tlws yr olygfa ar ddydd o Fedi. Gorchuddir y mur acw gan ddail mawr, gwyrddion, y *nasturtiums*, a'u blodau tanbaid eu lliw. Y mae'r afalau melyn a chochion ar gangau'r pren, wedi dianc hyd yma o afaelion yr Ismaeliaid crwydrol. Erys dail y masarn heb gwympo, ond newidia eu lliw. Diflannodd y nodd a'r ireidd-der, ac y mae bys oer yr Hydref eisoes wedi eu cyffwrdd a'i hudlath anweledig.

V.

Dyna oriel Medi, a mwynder tyner, fel anadl serch, yn suo anian i'w thawel hun. Darlun prydferth, ac y mae'r llygad yn gorffwys wrth syllu arno. Ond y mae'r miwsig yn absennol. Ni chlywir cân adeiryn, fel yn y misoedd o'r blaen. Y maent yma yn casglu cynhauaf ffrwythau'r ardd, ond nid ydynt yn canu. Y mae unawd y fwyalch wedi tewi, ac ni chlywir melodedd y fronfraith ar frig y pren. Distaw ydyw gwrychoedd yr ardd; ond y mae haul y nawn yn denu'r gloyn byw i grwydro am ennyd ar ei aden wen.

VI.

Rhaid ceisio gwneyd ein gorchwyl heb y miwsig. Y mae'r *orchestra* yn fud. Tybed? Onid oes rhyw furmur crwydrol, fel swn *bag-pipe* yn y pellder, yn rhywle o'n hamgylch? Oes, y mae. Beth ydyw? Dim amgen na gwybedyn glas ei liw yn mwmian ar wydr y ffenestr.

Ac wrth ei wrando daeth llinell o ganig Tennyson yn sydyn i'n meddwl—"Mariana in the moated grange." Yr oedd y lle hwnnw yn hafod breuddwydion, ac yn lletty distawrwydd. Ond yr oedd yno fymryn o fiwsig yn aros yn yr unigedd—

"The blue fly sung in the pane."

Dim ond hynny. Yr oedd y delyn wedi torri; alawon y dyddiau gynt wedi mynd, heb gymaint a gadael adlais ar eu hol. Ond yr oedd y gwybedyn glas yn canu ar wydr y ffenestr yn y *moated grange*.

VII.

Mor ryfedd ydyw dylanwad sain ar feddwl dyn. Y mae ambell swn yn aros yn ein hadgofion ar hyd y blynyddoedd. Ac un o'r adgofion cynaraf a feddaf ydyw hwn—bwthyn gwyngalch ar fin yr afon Alwen; minnau mewn siamber fechan, a dim ond un ffenestr iddi, yng ngafaelion y dwymyn adnabyddus a elwir yn "frech goch."

Annifyr oedd gorfod aros yn y siamber, a hithau mor braf. Aros yn y distawrwydd, a meddwl am y chware difyr oeddwn wedi ei golli. Ond yr oedd y gwybedyn glas yn dwndwr ar wydr y ffenestr o fore i hwyr—

"The blue fly sung in the pane."

VIII.

Diflannodd y blynyddau, fel cysgod y cwmwl ar y bryn. Y mae'r bwthyn gwyngalch yn adfail heddyw, a'r plant wedi chwalu i bedwar ban y byd. Anghofiais y gwybedyn glas tra yn gwrando miwsig mwy cynhyrfiol ar ymdaith bywyd. Diflannodd hwnnw, hefyd, fel swn y gwynt yn y pellterau draw. Ond hynod fel y mae pethau *cyntaf* meddwl ac enaid yn dychwel atom ym mhen llawer o ddyddiau. Ac yn ei dro, dyma'r gwybedyn glas wedi dod—un o wybed yr ugeinfed ganrif—i ganu yn y ffenestr. Tebyg iddo fod yma lawer tro yn ei dymhor ei hun, yn ol arfer baledwyr Cymru yn y dyddiau gynt. Ond nid oeddwn yn ei glywed y pryd hwnw. Yr oedd miwsig arall yn yr ystafell, ac yr oedd hwnw fel y dwsmel a'i delyn. Hawdd oedd gweithio yn swn y miwsig. Yr oedd ysbrydoliaeth yn nodau'r gân. Ond *Lost Chord* ydyw heddyw—y gân a gollwyd. A raid gweithio heb y miwsig? Yr wyf wedi bod yn gwrando, ac yn disgwyl. * * * * * * * * * * *

IX.

Tybed? A thra yn clustfeinio felly, dyna alaw y gwybedyn glas yn dirgrynnu yn y distawrwydd. Nid oes dim yn uwchraddol yndd i: ni fuasai yn cael sangu ar y llwyfan gyhoeddus. Dweyd y gwir, lled undonog ydyw—fel y clywais ambell frawd yn y cysegr yn canu'r dôn ar yr un nodyn o'r dechreu i'r diwedd! Nid oedd yn cydasio a'r gynulleidfa o gwbl; ond dichon ei fod yn canu a'r "ysbryd," os nid a'r "deall." Cân ddistadl ydyw eiddo'r gwybedyn glas, ond yn niffyg pob cân arall, yr wyf yn diolch am dani. Ac y mae'r olwg ar y cantor bach yn profi ei fod ef yn taflu ei holl egni i'r gwaith. Nis gall fod yn llonydd am funud awr. Ysgydwa ei gorff a'i edyn, ac y mae'r gwydr gloew fel llwyfan dan ei droed. Ac os cafodd Robert Bruce fendith ac ysbrydoliaeth newydd wrth wylio'r pry copyn yn dringo ei raff o wawn, cefais innau rywbeth tebyg wrth wrando "tôn gron" y gwybedyn glas. Nid wyf yn eiddigeddu wrth bobl brysur y Llythyrdy yn Amerig. Croeso iddynt gael yr *organ* a'r *string band;* ond y mae miwsig mwynach ambell dro, yn odlau gwybedyn byw na'r eiddo offerynau celfydd chwyth a thant. Dibynna'r cwbl ar yr amgylchfyd. Arall ydyw bywyd yn y gweithdy mawr a phrysur, ac arall ydyw profiad y sawl sydd yn cyfanneddu yn nhy ei freuddwydion, a'r drws wedi ei gau. Diolchgar ydym am gwmni ac alaw furmurol y gwybedyn glas—

"The blue fly sings in the pane."

IOLO MORGANNWG.

Fe gyhuddir Iolo Morgannwg o fod yn dwyllwr, a'r gwyn drom yn ei erbyn ydyw hon – iddo gynhyrchu nifer o'r cywyddau goreu yn yr iaith Gymraeg ; ac yna, yn lle addef eu hawduriaeth yn onest, iddo eu gosod yn llechwraidd o dan dadogaeth Dafydd ap Gwilym. Ymddengys fod Mr. Griffith J. Williams, M.A., wedi ymgymeryd yn egniol a'r gwaith o brofi euogrwydd Iolo, ac amddiffynnir ef yn wresog gan Mr. W. Llewelyn Williams, Cofiadur, Caerdydd.

Bydd yr ymdrafodaeth yn un ddiddorol a phwysig, a gofynnir ar fyr gan y cyhoedd roddi dedfryd derfynnol ar y pwnc mewn dadl ; amserol felly ydyw edrych i fewn ymlaen llaw i hanes y cyhuddedig.

Mab i saer maen oedd Edward Williams (Iolo Morgannwg). Trigai ei dad mewn bwthyn bychan o'r enw Penon, ym mhlwyf Llangarfan, Sir Forgannwg, a chan mor wannaidd oedd Edward pan yn blentyn, ni chafodd nemor ddiwrnod cyflawn o ysgol erioed. O dan law tad sarrug ac afrywiog ei dymer, gwael i'r eithaf a fyddai byd y llanc, onibae am ofal cariadus ei fam, yr hon a hannai o deulu bonheddig, ac a oedd yn fenyw wir ragorol. Hyhi a'i dysgodd ef i ddarllen, a hynny o lyfr o ganiadau Saesneg. Bu yntau, wedi iddo ddysgu crefft ei dad, yn nawdd a chysur i'w fam, ac yn y blynyddoedd hynny dechreuodd ymgydnabyddu a'r Awen, a melys odiaeth yw rhai o'r cywyddau a ganodd yn yr iaith Gymraeg. Cyfansoddodd farddoniaeth hefyd yn ei fam-iaith, y Saesneg, ac yn ei ragymadrodd i'w "*Poems—Lyric and Pastoral*," a gyhoeddwyd yn Llundain, dyry Iolo fanylion diddorol am dymor ei ieuenctid.

"Fy ymdrech barddonol gyntaf," meddai, "a wnaed yn Gymraeg, yr hon oedd iaith y gymydogaeth, er mai Saesneg oedd iaith tŷ fy nhad. Yn 1770 bu farw fy ngoreu o famau, ac er fy mod y pryd hynny yn dair-ar-hugain oed, yr oeddwn mor amddifad o wybodaeth am y byd a phlentyn newydd ei eni, fel y daethum i wybod yn fuan ar ol hynny. Yr oeddwn wedi gweithio wrth gelfyddyd fy nhad, oddiar pan oeddwn yn naw mlwydd oed ; ond nid oeddwn wedi ymgyfeillachu nemor a'm cyfoedion, nac wedi dysgu eu difyrrwch hwynt. Dychwelwn bob nos tuag ochr tân fy mam, a siaradwn neu ddarllennwn gyda hi. Pan awn allan, chwenychwn leoedd anghyfannedd—y coedydd neu lan y môr."

Yn fuan ar ol hyn, aeth i Lundain, a bu yn gweithio yno fel saer maen wrth un o'r pontydd dros yr afon Tafwys. Yn ystod y cyfnod hwn daeth yn gydnabyddus ag Owain Myfyr a'r Dr. Owain Pughe, dau o Gymreigyddion blaenaf yr oes. Amser cynhyrfus yn hanes y byd oedd y blynyddoedd hynny, canys dyna'r pryd y torrodd y chwyldroad mawr allan yn Ffrainc.

Wedi iddo ymbriodi ac ymsefydlu ym Mhontfaen. Cadwai Iolo Siop, ac ynddi fe werthai ymborth i'r meddwl yn gystal ag i'r corff, llyfrau yn gystal a bwydydd. Ond yr oedd ganddo syniadau dieithr ar fasnach, a chan nad oedd y faelfa yn talu ei ffordd, rhoddes y perchenog hi i fyny. Bu wedi hynny yn dir-fesurydd, ond greddf a phleser pennaf ei oes ydoedd teithio o fan i fan i chwilio am gofnodion hynafiaethol ac ysgrif-lyfrau. O gasgliad Iolo yn bennaf y cafodd Owain Myfyr ddefnyddiau y drysorfa fawr o hynafiaethau a gyhoeddwyd mewn tair cyfrol yn Llundain yn 1801, o dan yr enw "Myvyrian Archaiology."

Ar ei deithiau hynafiaethol y darganfu Iolo "Goelbren y Beirdd," neu lythyrennau gwyddor yr hen Gymry, a bu cryn ddadleu ynghylch dilysrwydd y darganfyddiad hwnnw hefyd.

Am y deunaw mlynedd olaf o'i oes, cystuddiwyd Iolo yn drwm gan ddiffyg anadl, a phrin y cysgodd un noson ond mewn cadair. Bu farw Rhagfyr 18, 1826, yn 81 mlwydd oed, ac y mae ei weddillion marwol ef a'i deulu yn cyd-orffwys yn dawel ym mynwent eglwys hynafol Treffleming.

RHAI O ENWOGION YR HEN FYD.

Dyddorol yn ddiameu yn hanes pob dyn enwog, a dyddorol fyddai gwybod ar hyd pa lwybr y cyraeddasant eu henwogrwydd. Darllenais yn ddiweddar fyrr hanes rhes hir o enwogion, a siomwyd fi yn fawr na chefais yn eu plith gymaint ag enw un Cymro. Yn naturiol gofynais i mi fy hunan y rheswm pam. Credaf nad yw y Cymro, fel y cyfryw, ddim yn ddiffygiol mewn gallu. Rhaid fod y diffyg gan hynny mewn rhyw gyfeiriad arall. Gwn fod Prifysgolion yn Rhydychen a Chaergrawnt er ys rhai canrifoedd, ac yn Ysgotland y mae pedair Prifysgol er ys hir amser, tra na chafwyd Prifysgol i Gymru hyd yn gymharol ddiweddar. Eto yr oedd maesydd dysg o lawer math ac yn llawer man yng Nghymru. Pan ddaeth y Duc hwnnw gynt ar draws copi o "Principia" Newton ar un o'r gwelyau yn yr ardd fe'i synnwyd yn ddirfawr. Aeth at y garddwr i ofyn am esponiad. Atebodd hwnnw'n wylaidd ei fod ef wedi arfer meddwl fod y byd o wybodaeth yn agored i bwy bynnag fyddai wedi meistroli yr Abiec.

A gaf fi ofyn pa nifer o ddarllenwyr YR YMOFYNYDD sydd wedi darllen "Principia" Newton.

Cofiaf y diweddar Dan Isaac Davies yn dywedyd unwaith mai darllen hanes rhai enwogion yn YR YMOFYNYDD ddarfu ei arwain ef i gymryd dyddordeb mewn llenyddiaeth.

Wele'n canlyn enwau ychydig o'r enwogion crybwylledig. Holed y darllenydd ifanc ragor am danynt, ac fe gaiff fod eu hanes yn ddyddorol ac adeiladol. Nid oeddynt yn cytuno a'u gilydd yn mhob peth. Chwilio'r oeddynt a llwyddo ambell waith; ond mae ffrwyth eu dyfalu yn werth ei ddarllen.

Cyfyngwn ein sylwadau at y rhai oedd yn byw cyn y cyfnod Cristnogol, gan ddechreu gyda

THALES (640—545 C.C.), yr hwn a ddesgrifir fel y pennaf o'r rhai a elwir yn Saith Wyr Doeth Groeg. Efe oedd y cyntaf i ragfynegu diffyg ar yr haul. Credai mai o'r "dwr" y daeth pobpeth yn wreiddiol. Ei arwyddair oedd—adnebydd dy hun.

ANAXIMANDER. Disgybl Thales, a enwogodd ei hunan fel gwneuthurwr daearlenni a deialau.

ANAXIMENES. Disgybl Anaximander, a ddysgai mai "awyr" oedd dechreu pob peth.

ANAXAGORAS oedd ddisgybl i'r olaf. Ar ol bod yn dysgu am 30 mlynedd, cafodd ei ddedfrydu i farwolaeth am heresi, yr hyn a barodd ef i ddwedyd fod Natur er ys blynyddau wedi pasio yr un ddedfryd. Pan ar ei dreial amddiffynnwyd ef gan y gwladweinydd enwog Pericles, a'i ddisgybl ei hunan, a newidiwyd y ddedfryd i un o alltudiaeth dros ei fywyd. Dysgai Anaxagoras mai corff o dân oedd yr haul.

XENOPHANES oedd fardd yn ogystal ag athronydd, a dysgai unrwydd (*oneness*) y bydysawd, ac mae'r Duwdod oedd y gallu bywiol ynddo, neu yn ngeiriau Aristoteles—Xenophanes a ddywedodd "Duw sydd un."

HERACLEITOS a ystyriai mai cân

cynffurf pob peth. Wylai oherwydd ffolinebau dynion, a gelwid ef yn "Weeping Philosopher."

PYTHAGORAS. Yr oedd cyfundrefn Pythagoras yn gyfuniad o'r holl wyddorau adnabyddus yn ei oes ef (584—504 C.C.). Dangosodd ei fod yn rhy wylaidd i ddilyn ei flaenoriaid ac i gyfenwi ei hunan yn *Sophos*, neu wr doeth. Gwell oedd ganddo yr enw *Philo-Sophos*—un yn caru doethineb.

DEMOCRITOS oedd y cyntaf i awgrymu fod y Llwybr Llaethog yn gyfansoddedig o filiynau o ser. Oherwydd ei barodrwydd i chwerthin am ben ffolinebau dynion, aeth rhai i gredu fod diffyg yn ei synwyrau, a danfonwyd Hippocrates ato i geisio ei wella, a'r casgliad y daeth iddo oedd y gwr doethaf yn ei ddydd. Dysgai mai tawelwch meddwl oedd y daioni pennaf. Gelwid Democritos yn "Laughing Philosopher."

HIPPOCRATES. Meddyg pennaf ei oes—tad y wyddor feddygol.

SOCRATES. Y mwyaf clodfawr o athronwyr Groeg, a'r un y mae ei enw wedi ei estyn i lawr fel patrwm o ddoethineb a rhinwedd. Eto fel llawer o'i flaen ac ar ei ol cafodd ei ddedfrydu i yfed gwenwyn a marw. Ni adawodd ddim mewn ysgrifen.

PLATO (430—348 C.C.). Disgybl Socrates ac athronydd ardderchocaf yr hen fyd. Efe osododd mewn ysgrifen ymddiddanion olaf ei athraw ar Anfarwoldeb yr Enaid.

ARCHIMEDES (287—212) yw enw gwyddonydd mwyaf, feallai, yr hen fyd. Astudiodd Euclid yn fore o dan rai o ysgolorion yr athraw hwnnw, yr hwn oedd wedi marw erbyn hynny. Dywedir iddo ddyfeisio llong fawr, ac wrth lansio honno dangosodd beth allai wneud trwy ddefnyddio trosol (*lever*) i'w symud i'r môr. Synnodd y brenin pan welodd. Dyna'r pryd y gwnaeth Archimedes ddefnydd o'r ymadrodd adnabyddus—"Pe rhoddech i mi le i sefyll arno mi allwn symud y ddaear. Dyfeisiodd lawer o offerynnau rhyfel a helpiodd i gadw'r gelyn bant am hir amser. Nid oes dim yn amhosibl yn y stori iddo ddyfeisio chwydd-wydrau a gosod llongau Rhufain ar dân. Ond y stori hynotaf yn ei hanes yw y stori am goron y brenin Hiero—perthynas o bell. Yr oedd Hiero wedi rhoi swm o aur i gelfyddydwr enwog er mwyn iddo ei wneud yn goron. Wedi gorffen y gwaith cafwyd fod y goron yn pwyso yr un faint a'r aur, ond yr oedd y brenin yn ameu wedi'r cwbl. Danfonwyd y goron i Archimedes, a cheisiwyd ganddo wneud prawf. Parhaodd yn bwnc dyrys iddo am hir amser. Tra'r oedd fel hyn o ddydd i ddydd yn pyslan, digwyddodd iddo sylwi un dydd wrth gymeryd *bath* fod y dwfr yn llifo drosodd i'r un graddau ag yr oedd ei gorff ef yn myned i fewn, ac fod swm y dwfr oedd yn mynd allan yn gyfartal i swm y corff oedd wedi cymryd ei le. Oddiwrth hyn canfyddodd ar unwaith, os oedd y goron o aur pur, y byddai iddo, wrth ei suddo achosi yr un faint o ddwfr i redeg allan ag a wnai swmp o aur o'r un bwysau a'r goron. O'r tu arall, os byddai wedi ei gymysgu a rhywbeth arall, parai i fwy o ddwfr redeg allan na'r aur. Fflachiodd hyn ar ei feddwl ar unwaith. Neidiodd allan o'r *bath*, a rhedodd yn noeth fel yr oedd, drwy ystrydoedd Athen yn gwaeddi—"Eureka! Eureka!" Hynny yw, "Yr wyf wedi ei gael allan! Yr wyf wedi ei gael allan."

B. C. D.

I BLENTYN NEWYDD ENI.

Yn blentyn newydd eni, noeth, ar lin,
Pan wenai pawb, yr wylit tithau'n flin;
Bydd fyw, fel, wrth it suddo i'th olaf hun,
Pan wylo pawb y gweni di dy hun.

Syr John Morris Jones.

Y CYFARFODYDD CHWARTEROL.

Cynhaliwyd cyrddau'r Hydref yng Nghribyn ar y dyddiau Mawrth a Mercher, y 27ain a'r 28ain o Fedi, pryd yr oedd y gweinidogion a ganlyn yn bresennol: Simon Jones, B.A., Nottingham (Llywydd y Gymdeithas); E. R. Dennis, Aberdar; T. A. Thomas, Llandyssul; E. O. Jenkins, Llwynrhydowen; Lewis Williams, Alltyplaca; D. Conwil Evans, Rhydygwin; J. Davies, Tancoed; R. C. Jones, Llanbedr; J. E. Jenkins, Ainsworth; a J. D. Jones (myfyriwr). Dechreuwyd nos Fawrth gan y Parch. T. A. Thomas, a phregethwyd gan y Parchn. E. O. Jenkins ac L. Williams. Cynhaliwyd Pwyllgor am 9 bore Mercher, dan lywyddiaeth y Parch Simon Jones, B.A. Rhoddir adroddiad o'r gweithrediadau gan yr Ysgrifennydd. Dechreuwyd y gwasanaeth boreol gan Mr. J. D. Jones; yna darllenwyd dau bapyr ar y testyn penodedig—"Efengyl Iesu Grist a'r dydd presennol," un (oddiar safbwynt lleygwr) gan Mr. D. Tyssul Davies, Aberdar; y llall (oddiar safbwynt gweinidog) gan y Parch. E. R. Dennis. Rhoddodd y ddau siaradwr foddlonrwydd mawr i'r gynulleidfa luosog a wneid i fyny o gynrychiolwyr y rhan fwyaf o'n heglwysi. Addawodd y ddau ddanfon eu hanerchiadau i Olygydd YR YMOFYNYDD. Ein gobaith yw cael y pleser o'u darllen yn hamddenol eto. Teilynga'r ddau anerchiad gylchrediad a darlleniad eang. Siaradwyd ymhellach gan y Parchn. E. O. Jenkins, T. A. Thomas, y Llywydd, ac eraill. Dechreuwyd gwasanaeth y prydnawn yn ei ddull effeithiol arferol gan y Parch. J. Davies, a phregethwyd gan y Parchn. E. R. Dennis, a Simon Jones. Dechreuwyd gwasanaeth yr hwyr gan y Parch. Conwil Evans, a phregethwyd gan y Parchn. E. O. Jenkins (yn lle y Parch. J. Davies) a T. A. Thomas. Cawd hin ffafriol iawn, cynhulliadau lluosog, a phregethau grymus, a gwrandawiad astud. Yr oedd pawb—y gynulleidfa leol, y pregethwyr, a'r gwrandawyr—ar eu heithaf i wneud y cyfarfodydd yn llwyddiant. Hyderwn iddynt adael dylanwadau daionus ar eu hol.

ADRODDIAD O WEITHREDIADAU Y PWYLLGOR.

Cynhaliwyd Pwyllgor yr Hydref yng Nghribyn bore Mercher, Medi 28, y Llywydd, y Parch. Simon Jones, B.A., Nottingham, yn y gadair. Wedi darllen a chadarnhau cofnodion y pwyllgor diweddaf pasiwyd y penderfyniadau canlynol: (1) Fod y Llywydd i gynrychioli y Gymdeithas yn nghyfarfodydd Hydref y Gymdeithas Undodaidd Frytanaidd a Thramor a gynhelir yn Mryste ddechreu Tachwedd. (2) Fod y rhai canlynol: y Parchn. D. Evans, T. A. Thomas, L. Williams, ag E. O. Jenkins i dynu allan gynllun er ffurfio cronfa gynnorthwyol ynglyn a'r draul o gyhoeddi'r YMOFYNYDD, ac fod ganddynt hawl i osod y cynllun mewn gweithrediad yn ddioedi. (3) Ein bod yn derbyn yn ddiolchgar wahoddiad eglwys y Graig, Llandyssul, i gynnal cyfarfodydd y Pasg, 1922 yno. (4) Fod y Parch. T. A. Thomas i alw ynghyd hen Bwyllgor y Llyfr Tonnau ac Emynau er gwasgu ymlaen gyda'r gwaith o barotoi ar gyfer dwyn y llyfr allan. Gyda theimlad o ofid y derbyniodd y pwyllgor y newydd fod afiechyd wedi analluogi y Parch. D. G. Rees i fod yn bresenol yn y cyrddau, ac nad oedd ei iechyd wedi bod yn dda er's amser maith, a phasiwyd yn frwdfrydig iawn fod pleidlais o gydymdeimlad gwresocaf y Gymdeithas yn cael ei danfon iddo, ynghyd a datganiad o ddymuniad taer ar iddo

gael adferiad buan. Cafwyd adroddiadau boddhaol a chalonogol o ymdrechion lleygwyr i gynnal gwasanaethau crefyddol heb gynnorthwy gweinidogion, o Alltyplacca lle y cynhelir cyfarfodydd gweddi bob yn ail nos Sul, ac o Bwlchyfadfa. Yr oedd yn llawenydd hefyd gan y pwyllgor i gael ar ddeall gan y Parch. D. Evans fod yna fachgen ieuanc yn Nghapelygroes fydd yn debygol o ddod allan fel pregethwr cynnorthwyol. Dymuna y pwyllgor wneud apel daer at y dyn ieuanc hwn i ymroddi i'r gwaith o ddifrif ac heb oedi. Hydera y pwyllgor y ceir adroddiadau tebyg o'r eglwysi ereill yn y cyfarfod nesaf, ac y bydd i'r rhai sydd wedi cychwyn gyda'r gwaith da ddal ati.

ARHOLIAD YR YSGOL SUL.

Ar ddymuniad amryw, galwyd ynghyd bwyllgor o gynrychiolwyr ein heglwysi yng Nghribyn ar yr 28ain o Fedi—dydd y cyrddau—er ystyried ymhellach y cynllun newydd o arholi fabwysiadwyd yng Nghwrtnewydd ar yr 20fed o Orffennaf. Yng Nghwrtnewydd, penderfynwyd i'r Arholiad y flwyddyn nesaf fod yn ysgrifenedig i Safonau II—IV. Ar ol dod o'r cynrychiolwyr i gyffyrddiad â'r ysgolion ar ol y gynhadledd daeth yn amlwg fod perygl i'r cynllun newydd i filwrio yn erbyn llwyddiant yr Arholiad. Yng Nghribyn, penderfynwyd agweddu'r cynllun newydd yn y cyfeiriad a ganlyn: fod dau Arholiad y flwyddyn nesaf—(1) un yn anysgrifenedig (fel arfer), agored i bawb, ar ryw ddydd tua chanol mis Mawrth; (2) y llall yn ysgrifenedig, ymhen wythnos neu bythefnos ar ol y cyntaf, ac yn agored i bawb. Yn yr Arholiad cyntaf, rhennir y plant, yn ol eu teilyngdod, i ddosbarth cyntaf ac ail ddosbarth yn unig; yn yr ail Arholiad y penderfynir pwy sydd deilwng o (1) Fedal, ac (2) Anrhydedd. Sylwer—dim ond Safonau II—IV fydd ysgrifenedig. Dymunaf, hefyd, alw sylw at y Maes Llafur yn rhifyn Medi o'r YMOFYNYDD; ac at y gwersi yn y rhifyn presennol. Dymunaf alw sylw arbennig at y ffaith—mai talfyriad yw'r gwersi hyn o'r "Gwersi ar Fywyd Iesu," gan y diweddar Barch. W. James, B.A. Diau fod copïau ymhobun o'n hysgolion.

D. EVANS, *Ysg.*

EUOG, A'U RHYDD.

(CYFIEITHIAD O RANNAU O ERTHYGL MR. LLÉWELYN WILLIAMS, K.C. YN Y "*Welsh Outlook.*"

Y mae'r ddadl ynghylch awduraeth "Cywyddau'r Ychwanegiad," hynny yw, yr 16 cerdd a ymddengys yn yr Atodiad i argraffiad 1789 o weithiau Dafydd ap Gwilym, a'r ddwy eraill y sydd yng ngorff y llyfr hwnnw yn y Rhifau 70 a 80, wedi ei hadfywio gan ddigwyddiadau Eisteddfod Caer-

nairon. Fe gynhygiwyd gwobr ar y pwnc dadleuol hwn gan Gymdeithas yr Eisteddfod Genedlaethol. Nid ymddanghosodd ond un cystadleuydd—Mr. G. J. Williams, Cellan—a dyfarnwyd y wobr iddo gan y beirniaid, y tri Athro mewn Cymraeg yng Nghoiegau'r Brifysgol. Mynegwyd yn gyhoeddus gan un ohonynt, sef Syr John Morris Jones, fod Mr. Williams wedi profi yn ddiddadl mai ffugiwr a thwyllwr oedd yr Hen Iolo. Pan feiddiais ddywedyd nad oedd y profion o fewn cyrraedd wedi fy argyhoeddi, fe ofynnodd y Proffeswr yn wawdlyd pa dystiolaeth a welswn o gwbl. Fe anghofia ef fod Mr. G. J. Williams wedi cyhoeddi ffrwyth ei ymchwiliadau yn y *Beirniad* dair blynedd yn ol, ac i'r erthyglau hynny fod yn ddigon i argyhoeddi Syr John. yntau yn rhagfarnllyd eisioes yn erbyn Iolo. mai gwir oedd y cyhuddiadau o dwyll a ffugiaeth. Fe amheuaf finnau a ydyw Mr. Williams wedi bod yn alluog, yn ei draethawd arobryn, i ychwanegu yn sylweddol at ei brofion. Euthym yn fanwl i mewn i'r achos, dair blynedd yn ol. Yr wyf yn awr wedi ail-ddarllen ei erthyglau. Er na honnaf fy mod yn ysgolor athrofaol, hawliaf fy mod yn gwybod mwy na'r dyn cyffredin am reolau tystiolaeth, ac am eneideg troseddwyr. Ar ol pwyso yn ofalus y dystiolaeth a ddygir ymlaen gan Mr. G. J. Williams, (a rhaid ydyw ei longyfarch ar ei degwch hollol yn ei gyflwyniad o'r ffeithiau i gyd, er maint a wahaniaether oddiwrtho yn ei gasgliadau), nid oes arnaf un petrusder o gwbl wrth geisio gan fy nghyd-wladwyr gyhoeddi yr Hen Iolo yn ddi-euog o'r cyhuddiadau difrifol a ddygir i'w erbyn.

* * * *

Pan gyhudder dyn o unrhyw drosedd, un o'r pethau cyntaf ofynnir ydyw, "Pa beth yw ei hanes?" Ni thry neb yn ddyhirin hollol, ar unwaith. Pa fath ddyn ydoedd Iolo yn amgylchiadau cyffredin bywyd? Gwrandawer pa beth a ddywed ei brif erlynydd. "Yr oedd mor rhydd" medd Mr. Griffith J. Williams ym *Meirniad* Mehefin 1919, "oddiwrth dwyll a ffug â baban diwrnod oed." Eto i gyd, dyn o'r fath yma—dyn o ddiniweidrwydd a didwylledd plentyn ydyw'r gwr a gyhuddir o gyflawni hoced mewn llenyddiaeth, a honno yr hoced fwyaf llwyddiannus y gwyddys am dani erioed.

* * * *

Ond pa beth oedd ei gymhelliad? Dywed Mr. G. J. Williams mai caurif yr hocedion ydoedd y ddeunawfed, a noda ystrywiau M'cpherson a Chatterton fel enghreifftiau. Ond nid yw yr achosion hynny yn gyffelyb. Fe roddwyd i Facpherson ddwy fil o bunnau gan Ysgotiaid gwladgarol am gasglu a chyfieithu ei weddillion o gerddi Gaelaidd. Fe dalodd yr Arglwydd Bute, a oedd ar y pryd yn Brif Weinidog, y draul o gyhoeddi un o'i gyfrolau, a rhoddodd iddo swydd gysurus, a'i galluogodd i fyw yn foethus ac i farw'n oludog. Ynghylch Chatterton, digon yw dywedyd mai person gwahanol i'r cyffredin ydoedd ef: fe wnaeth ddiwedd ar ei fywyd ei hun pan nad oedd ond deunaw oed. Nid oes amheuaeth na obeithiai wneuthur enw ac elw trwy ei "hocedion" llenyddol, ac ni chymerodd y gwenwyn a roes derfyn ar ei einioes hyd oni siomwyd ef yn hynny.

* * * *

Nid oedd dim gan Iolo i'w ennill drwy fod yn dwyllodrus. Cyn belled ag y gwyddys, ni dderbyniodd geiniog goch erioed am ei "gywyddau," o law Dr. Owain Pughe nac Owain Myfyr. Yn wir, yr unig gydnabyddiaeth a dderbyniodd ar eu llaw ydoedd nodiad mewn llythyren fân ar waelod tudalen y ddegfed o'u "rhagymadodd" i weithiau Dafydd ap Gwilym. Y mae yn eglur, felly, na wnaeth Iolo dwyll er mwyn elw. Ond os dirmygai olud, onid oedd ef yn awyddus am enw a bri mewn

llenyddiaeth? Y mae tystiolaeth y llyfrau a gyhoeddwyd ganddo yn dangos ei fod. Ond er hynny, pan lwyddodd i gyfansoddi pedair-arddeg o gerddi anfarwol, na chynyrchwyd eu bath gan fardd Cymreig erioed, fe geisir gennym goelio iddo foddloni ar wrthod y llawryf ei hun, a'i dodi ar ben bardd a fu farw bedair canrif o'i flaen.

BRASLUN O WERSI AR YR EFENGYL YN OL MARC.

SAFON III (10 i 14 oed).

Gwers I.—Yr Efengyl a'i Hawdur (Marc: y teitl a I. 1.)

Efengyl: newydd da (addysg Iesu). *Yn ol Marc*: hanes Iesu a'i addysg gan Marc. *Marc*: Iddew (Col. IV: 10, 11); ei fam—Mair, yn byw yn Jerusalem; disgybles a chyfeilles i'r Apostolion. Trowyd ef at Gristionogaeth gan Petr (1 Petr V. 13). Bu'n gydymaith i Paul a Barnabas ar eu teithiau cenhadol; eithr parodd ymrafael rhwng y ddau, ac ymwahanasant (gweler Actau XII. 12, 24, 25; XV. 36—41: 1 Petr V. 13). Cymodwyd Paul a Marc ar ol hyn (1 Tim. IV. 11). Tybir i Marc ysgrifennu "atgofion Petr am Iesu." Yr "atgofion" hyn, fel y bernir, yw sylfaen ein Hefengyl Marc ni. Terfynodd ei fywyd, yn ol traddodiad, yn Alexandria, yn yr Aifft, fel esgob ar yr eglwys sefydlwyd ganddo yno. *Iesu*: enw cyffredin ar bersonau; ffurf Roegaidd o'r gair Hebraeg Josua. *Crist*: ystyr lythyrennol—un wedi ei eneinio (i fod yn frenin); enw'r brenin ddisgwylid gan yr Iddewon; gair Groeg yn ateb i'r gair Hebraeg Messeia.

Gwers II. Ioan Fedyddiwr (Marc I. 2—8)

Dechreua Marc ei hanes gyda gweinidogaeth Ioan Fedyddiwr. Sylwer ar y gwahaniaeth rhyngddo a'r ddau arall (Mathew a Luc). Ad. 2; gwel Mal. III. 1. Ad. 3; gwel Esaia XL. 3. Ysgrifennwyd y ddwy adnod yn y 6ed ganrif cyn Crist. Nid oedd Iesu ym meddwl un o'r ddau broffwyd. Defnyddia Ioan y ddwy adnod fel geiriau cymwys i ddesgrifio gwaith Ioan—un yn paratoi'r ffordd i'r Messeia—gwneud y bobl yn barod i'w dderbyn. *Ioan*: sylwer ar y prif ffeithiau yn ei hanes (gwel Luc I, 5—6; 57 67; Mathew III.; Marc VI, 14—29). *Bedyddio*: trwy drochi yn yr Iorddonen. *Diffaethwch*: y wlad anial yng nghymdogaeth cydiad yr Iorddonen a'r Mor Marw. *Pregethu*: cyhoeddu, annog. *Edifeirwch*: cyfnewidiad meddwl a buchedd—penderfyniad i adael y drwg a dilyn y da. *Maddeuant pechodau*: ystyr y gair maddeuant yw—rhoi i fyny, gadael. Ad. 5: cynhyrfwyd yr holl wlad gan bregethu Ioan. Cynhyrfiadau o'r natur hyn yn beth cyffredin: sylwer ar y diwygiadau yng Nghymru. *Hierosolymitiaid*: pobl Jerusalem. Sylwer ar ddull Ioan o fwyta a gwisgo. Sylwer hefyd beth ddywed am dano'i hun (adn. 7, 8.)

Gwers III. Bedydd Iesu (Marc I. 9—11)

Ad. 9: y dyddiau hynny—yr adeg yr oedd Ioan yn pregethu ac yn bedyddio. *Nazareth*: pentref yng Ngalilea, mewn dyffryn cul, yng nghanol y mynyddoedd. *Galilea*: rhanbarth o Palestina. *Rhanbarthau eraill*: Samaria yn y canol, Judea yn y de, Perea y tuhwnt i'r afon. Yr hanes yn y tair Efengyl gyntaf yn debyg; eithr yn llawnach ym Mathew a Luc nac ym Marc. Dywed Mathew a Luc nad oedd Ioan yn foddlon bedyddio Iesu; eithr iddo gydsynio ar gais Iesu. Sylwer ar adn. 10, 11; ni ddylid eu deall yn llythyrennol. Sylwer: Ioan fu'r achos pennaf i ddwyn Iesu allan i bregethu. Sylwer hefyd ar rai gwahaniaethau rhwng y ddau: Ioan yn feudwy (beth yw meudwy?), yn deffro'r bobl trwy eu dychrynu; Iesu yn cymdeithasu a'r bobl, ac yn ceisio eu denu trwy gariad. Amcan y ddau yr un: ennill y bobl i deyrnas Dduw. Beth yw teyrnas Dduw? Ymha le y mae.

Gwers IV. Temtiad Iesu (Marc I. 12, 13)

Ar ol ei fedydd, aeth Iesu i'r anialwch—y wlad ddiffaeth yr ochr orllewinol i'r afon. Darllener Mat. IV. 1—11. Ni all mai hanes yw hyn i gyd; i ni, dameg ydyw, yn desgrifio'r frwydr yr aeth Iesu trwyddi ar ddechreu ei weinidogaeth. Ni ellir dweyd beth ddigwyddodd; eithr naturiol ydoedd i Iesu ymneilltuo am dymor i le unig i feddwl a thynnu allan gynlluniau. With wneud hyn, diau y daeth meddyliau i'w galon o fath y rhai ddesgrifir yn yr adnodau hyn. Y mae pob temtasiwn dynol yn perthyn i un neu arall o'r tair temtasiwn: (1) defnyddio galluoedd i sicrhau boddhion tymhorol mewn ffordd anghyfreithlawn. (2) yr awydd i ennill clod trwy gyfryngau rhyfygus. (3) yr awydd i ennill safleoedd o awdurdod bydol ar draul anwybyddu egwyddorion. Daeth Iesu o'r frwydr yn fuddugoliaethus. Dwedir am dano: "Yr hwn ni wnaeth bechod, ac ni chaed twyll yn ei enau" (1 Petr II. 22). Gwers: y gall pob dyn orcfygu temtasiynau, fel Iesu.

SAFON IV.

Gwers I.—(a) Gwersi Safon III; (b) Pen. I. yn "Gwersi ar Efengyl Marc" dan olygiaeth y Parch. W. James, B.A.

Y Beibl: y Llyfr. Nid un llyfr yw'r Beibl, eithr casgliad o lyfrau—39 yn yr H.D., 27 yn y T.N. Casgliad o lyfrau cysegredig yr Iddewon yw'r H.D. Casgliad o lyfrau cysegredig y Cristionogion yw'r T.N.; hanes Iesu a'i addysg, ynghyda hanes Cristionogaeth am y ganrif gyntaf. Sylwer ar enwau llyfrau'r ddau Destament. Ysgrifenwyd yr H.D. yn yr iaith Hebraeg; y T.N. yn yr iaith Roeg. Ystyr y gair Testament yw—Ewyllys. Rhoddwyd yr enw Testament i'r llyfrau hyn am y tybid eu bod yn cynnwys hanes amlygiadau o Ewyllys Duw. *Y Cyfieithiadau i'r Gymraeg*: y cyfieithiad cyntaf o bwys oedd un William Salesbury o'r T.N., a ymddangosodd yn 1567. Dygwyd allan gyfieithiad cyflawn o'r Beibl yn 1588, gan Dr. William Morgan, ficer Llanrhaidr Mochnant, wedi hynny Esgob Llandaf a Llanelwy. Cyhoeddwyd yr argraffiad nesaf yn 1620 gan Dr. Richard Parry, olynydd Dr. Morgan yn esgobaeth Llanelwy. Cynorthwywyd Dr. Parry gan Dr. John Davies, ficer Mallwyd, Meirionydd. Hwn yw'r cyfieithiad (gydag ychydig gyfnewidiadau) sydd wedi ei argraffu byth oddiar hynny.

Sylwadau: Talfyriad yw'r uchod o'r "Gwersi ar Fywyd Iesu" dan olygiaeth y diweddar Barch. William James, B.A., gall yr athraw ddefnyddio y llyfryn hwn gyda'r uchod. (2) Ni pharatoir gwersi i Safonau I a II.

Gweler Ymofynydd, Medi.

PRIODASAU.

MEDI 21ain, ynghapel Soar, Llanbedr, gan y Parchn. Mr. Phillips, Tynygwndwn, a T. O. Williams, B.A., Brondeifi, ac yng ngwydd y Cofrestrydd, Mr. Enoch Davies, unwyd mewn glân briodas Gruffydd Jones, ail fab Mr. a'r diweddar Mrs. Jones, Frowen, Pencarreg, a Rachel Mary, merch Mr. a Mrs. Evans, Ynysfelen, Dihewyd. Hir oes a gwenau'r Nef.

Yn llaw Ion oes lawn tirioni—a'r Nef
Ry' nawdd dibryderi ;
Yn hoff nawr rhoes ein Gruff ni
Ei air i'w Rachel Mari.

YN Eglwys Llanaber, ger Barmouth, gan y Parch. R. Lloyd Roberts, Rheithor, Barmouth, yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. W. M. Williams a R. Ward, Curadiaid, unwyd mewn glân briodas Mr. Rees Lloyd, Loudon City and Midland Bank, Barmouth, ail fab Mr. a Mrs. Lloyd, Quarry Villa, Cwmsychbant, a Miss Florence Gertrude Moore, ail ferch Mrs. Moore, a'r diweddar R. J. Moore, Ysw., Lion Hotel, Barmouth. Hir oes, a dedwydd.

MEDI 24ain, ynghapel Brondeifi, gan y Gweinidog, ymhresenoldeb y Cofrestrydd, Mr. Enoch Davies, unwyd yn nolen serch Mr. John Howell Davies, Craigcefnparc, Morganwg, a Dora, merch hynaf Maer a Maeres Llanbedr (yr Henadur a Mrs. Lewis D. Jones, 1 Glandulas Terrace). Hir oes a phob dedwyddyd iddynt.

Heddyw hwn sydd ddydd o ha'—ond ei swyn
Rhoed serch a'r Nef wena :
A chymered ef ferch Maer da,
Yn dirion boed wrth Dora.

HYDREF 24, yng Nghapel Pantydefaid, gan y Parch. T. Arthur Thomas, unwyd mewn glân briodas Mr. Benjamin Thomas, Green Park, Pontwelly, a Miss Rachel Davies, Cilgwynbach, Llandyssul. Taith hir a hapus i'r ddau yw dymuniad cylch helaeth o gyfeillion.

MARWGOFION.

AWST 28, yn 69 oed, bu farw Price James, Dilledydd, Claret House, Pencarreg, gan adael priod (merch i'r diweddar Daniel a Margaret Evans, Felinban), tri mab, ac un ferch, ynghyda pherthynasau agos eraill, mewn galar dwys ar ei ol. Ni fu yn gryf ei iechyd un adeg o'i fywyd, ond dilynodd ei alwedigaeth hyd y dydd Gwener cyn ei farw, a bu ei farwolaeth felly yn un disymwth iawn. Dyn o ysbryd hynaws a siriol ydoedd, priod a thad tyner a gofalus. Yr oedd yn dra hoff o ddarllen : ac ymwelydd derbyniol iawn â'i aelwyd oedd YR YMOFYNYDD. Teimlai gryn ddiddordeb mewn hen hanesion lleol, a difyr iawn oedd ei glywed yn adrodd ystoriau'r hen amser, yn enwedig ystoriau yn dal perthynas ag

ardal Pencarreg. Yr oedd yn aelod ffyddlon yn Aberduar, ac yn ei anerchiad ddydd ei angladd, y Mawrth canlynol, dygodd ei weinidog dystiolaeth uchel i'w ffyddlondeb ac i'w fuchedd lân. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. D. Evans, Capelygroes, ac yn y capel a'r fynwent gan y Parch. D. C. Griffiths, y Gweinidog.

MEDI 23, yn 82 oed, bu farw John Daniel, Abercerdinen, ger Llanwnen, ar ol amryw fisoedd o nychdod. Ganwyd ef yng Nglynyrhelyg, plwyf Llanwenog; ac yno y treuliodd y rhan fwyaf o'i oes. Ar farwolaeth ei fodryb, ychydig flynyddoedd yn ol, symudodd ef a'i ddwy chwaer i'r lle uchod, yn bennaf, fel y dwedai, "er mwyn bod yn nes i'r capel." Mwynhaodd iechyd da drwy ei oes, hyd tua blwyddyn yn ol, pan y dechreuodd ei iechyd ballu; eithr parhaodd i godi a mynèd ychydig oddiamgylch hyd tuag wythnos cyn ei farw. Gadawodd mewn galar dwys ar ei ol bedair chwaer (dwy o'r rhai oeddynt yn byw gydag ef) a lluaws o berthynasau agos. Chwith iawn ganddynt ei golli, yn enwedig y ddwy chwaer yn Abercerdinen. Bydded iddynt gael nerth i ymgysuro yn eu colled a'u hiraeth. Dyn tawel, heddychol, cywir ei rodiad, oedd John Daniel; a hoffid ef yn fawr gan bawb a'i hadnabyddai. Yr oedd yn Undodwr goleuedig, o argyhoeddiadau cryf, yn tueddu at yr Hen Ysgol yn fwy nag at y Newydd; ond Undodwr, er hynny, o ysbryd eangfrydig a goddefol. Medrai oddef syniadau gwahanol i'r eiddo'i hun. Oblegid hyn yr oedd ymgomio ag ef ar faterion crefydd yn felys iawn. Dechreuodd fynychu Capelygroes yn dra ieuanc; a pharhaodd i fynychu'n gyson drwy'r blynyddoedd—bob bythefnos o Glynyrhelyg, yn ddifwlch o gyson o Abercerdinen. Hebryngwyd ei weddillion i Gladdfa Eglwys Llanwnen (i ymyl ei rieni) dydd Mawrth canlynol, y cynhebrwng yn anghyhoedd. Pregethwyd yn y tŷ gan y Parch. D. Evans, Capelygroes, oddiar y geiriau "Da, was da a ffyddlon." Awd drwy y rhan arweiniol gan ei hen gyfaill mynwesol y Parch. J. Davies, a gweddiwyd wrth y drws gan y Parch. L. Williams.

HYDREF 3, yn 68 mlwydd oed, Mrs. Margaret Jones, Cwmmawr, ger Cwrtnewydd. Collodd yr ymadawedig ei phriod pan yr oedd ei dwy ferch yn ieuainc iawn, a bu y gofalon perthynol i'r fferm, ynghyd a dwyn ei phlant i fyny yn gorphwys arni hi. Llafuriodd yn egniol hyd tua dwy flynedd yn ol, pryd y goddiweddwyd hi gan afiechyd Llwyddodd y meddyg roddi lleshad iddi y pryd hwnw, ond nid oedd adferiad hollol yn bosibl, ac arosodd yr afiechyd ynddi, gan beri fod ei nherth yn cilio. Ychydig ddyddiau cyn ei marwolaeth cymerodd cyfnewidiad sydyn le, a daeth y diwedd yn fuan. Tystiolaeth un ar ddydd ei chladdedigaeth oedd ei bod wedi bod yn gymydoges dda. Yn ei berthynas a'i gymydogion y gellir adnabod dyn oreu, a chredwn fod y dystiolaeth uchod yn llefaru yn uchel am yr ymadawedig. Yr oedd yr angladd yn un lluosog, a chladdwyd yn mynwent Capelybryn. Gwasanaethwyd yn y tŷ a phregethwyd yn y capel gan y Parch. L. Williams, a chyflawnwyd y gweddill o'r gwasanaeth gan y Parchn. E. Glyn Edwards (B.), Cwrtnewydd, a E. O. Jenkins, Llwynrhydowen. Heblaw ei dwy ferch, gadawodd hefyd ddwy chwaer, un brawd, a nifer fawr o berthynasau eraill mewn galar. Nerth a gaffont, yn enwedig y ddwy ferch, i ymostwng i'r oruchwyliaeth, a boddloni i ewyllys y Tad.

HYDREF 4, yn 67 mlwydd oed, Thomas Evans, Penynant, ger Alltyblacca. Nid oedd wedi mwynhau iechyd da er's amryw o flynyddau. Tua mis cyn ei farwolaeth gorfu iddo fyned i'w wely, ond ni feddyliai neb fod perygl hyd tuag ychydig ddyddiau cyn y diwedd. Hanai o deulu parchus iawn. Yn Llysfaenuchaf yr oedd ei rieni yn byw, ac ar ol eu dydd hwy daliodd ef y fferm am flynyddau, a chawsai ei gyfrif yn amaethwr da. Nid yn unig yr oedd yn amaethwr da yn yr ystyr o roddi gwrtaith briodol i'w feusydd, ond yr

oedd yn ofalus am drefn ynglyn a gwaith y fferm, ac am wneud pob peth yn ddeheuig. Yr oedd yn adnabyddus fel un glanwedd a thaclus yn nglyn a phob peth. Cadwai ei hun bob amser yn drwsiadus, ac yr oedd iddo bersonoliaeth urddasol. Cynghorwyd ef gan ei feddyg rai blynyddau yn ol i ymadael o Llysfaenuchaf i le a fyddai yn mhellach oddiwrth afon a tharth, gan gredu y byddai hyny yn fantais i'w iechyd. Symudodd i Castell-du ; ond gan na fu hyny yn foddion i wella ei iechyd, adeiladodd Penynant ar ddarn o dir perthynol i fferm y Lowtre, ac aeth ef a'i deulu i fyw yno. Yr oedd yn enwog am ei barodrwydd i wneud cymwynas, ac yr oedd iddo barch mawr gan ei gydnabod. Claddwyd y Gwener canlynol yn mynwent Capelygroes, yr angladd yn anghyhoedd. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. L. Williams, Alltyblacca, ac yn y capel gan y Parch. D. Evans, Capelygroes. Gadawodd weddw, a merch, ac ŵyr, a mab yn nghyfraith, dwy chwaer (sef Mrs. Thomas, Y Bryn, Llanybyther, a Mrs. Felix, Henfaes, Cilcenin), a dwy nith, a nai, ynghyd ag amryw berthynasau eraill mewn galar mawr ar ei ol. Dymunwn i'r weddw, yr hon sydd yn wan ei hiechyd yn bresenol, gael adnewyddiad nerth, ac iddi hi a'i mherch gael eu galluogi i ddwyn y groes drom.

HYDREF 10, yn 72 oed, bu farw Margaret Jones, gweddw y diweddar Thomas Jones, Caerfoel, ger Cribyn, ar ol tuag wythnos o gystudd. Nid oedd o gyfansoddiad cryf, a gwanaidd fu ei hiechyd dros ran fawr o'i hoes ; er hynny parhaodd i lanw ei lle fel priod a mam—fel priod hyd farwolaeth ei chymar flynyddoedd yn ol, fel mam, ymron hyd y diwedd. Yr oedd yn un o ysbryd llawen a siriol, a pherchid hi yn fawr gan gylch ei hadnabyddiaeth. Dygodd hi a'i phriod i fyny deulu lluosog o blant, o'r rhai y mae naw yn fyw—pedwar yn byw gyda hi yng Nghaerfoel, a'r gweddill wedi sefydlu mewn bywyd, ac mewn sefyllfaoedd da. Bu'n fam dyner a gofalus, a diau y teimlir ei lle yn wag ar yr aelwyd ganddynt oll —yn enwedig y rhai oeddynt yn byw gyda hi ; eithr cysur ydyw iddynt fod y cof am dani mor felys a dymunol. Hebryngwyd ei gweddillion i ymyl ei phriod a'i phlant ym mynwent Eglwys Llanwnen, y dydd Gwener canlynol, gan dyrfa luosog iawn. Yr oedd yn aelod yng Nghribyn ; ond yr oedd wedi ei hanalluogi i fynychu er's blynyddoedd lawer. Er hynny teimlai ddiddordeb yn yr achos, a dymunai ei lwyddiant, a dangosai hyn trwy roi pob anogaeth fedrai i'r plant i fynychu'r addoliad. Pregethwyd yn y tŷ gan y Parch. D. Evans, Cribyn; oddiar y geiriau : "Yr ydym yn ymorchestu ein bod yn gymeradwy ganddo ef."

HYDREF 10. Rachel Lloyd Jones, Riverside, Pontshan, yn 51 oed. Claddwyd y Gwener canlynol yn Mhantdefaid pryd y gwasanaethid gan y Parch. E. O. Jenkins yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. T. A. Thomas a H. Williams, Carmel. Yr oedd Miss Jones wedi ei gadael yn bur unig ac amddifad yn y byd. Bu farw ei thad yn agos i 30 mlynedd yn ol, ac ym Mehefin 1919 collodd ei mam ac erbyn hynny nid oedd ganddi ond un brawd a hwnnw'n byw ymhell o ardal ei enedigaeth ac ychydig iawn o berthynasau agos. Yr oedd ganddi, er hynny, lawer o gyfeillion. Gwniadyddes oedd wrth alwedigaeth, a thrwy yr alwedigaeth honno y cadwodd ei hun ac ennillodd lawer o gyfeillion, a diameu eu bod yn wylo o'i cholli. Yr oedd yn aelod yn Llwynrhydowen er yn ieuanc ac yn un o'r aelodau hynny a'i cyfrifent yn ddyledswydd arnynt i fod yn y gwasanaeth yn rheolaidd. Eithriad oedd i'w lle fod yn wâg. Ers llawer blwyddyn hi oedd yn dosparthu YR YMOFYNYDD. Ar ol mwynhau iechyd da ar hyd ei hoes nid hir y bu wedi colli ei mham cyn dechreu gwaelu. Bu'n dihoenu am tua deunaw mis ac yr oedd ei chystudd tua'r diwedd yn galed iawn. I'n tyb ni, gan ein bod yn addaw i ni ein hunain ac i bawb barhad o fywyd tuhwnt i'r llen yr oedd marw'n elw iddi. Yn ei chystudd

bu nifer o'i chyfeillesau yn garedig iawn wrthi. Boed i'w brawd a phawb a wylant ei cholli i wylo fel rhai a gobaith ganddynt am gael ei chyfarfod eto.

HYDREF 17, yn 38 mlwydd oed, Margaretta Evans, gynt Llwyncelyn, Llandyssul. Cafodd ei mhagu a'l dwyn i fynu gan ei mhodryb, Sarah Thomas, o'r lle uchod, yr hon sydd yn awr yn byw yn Nhroedyrhiw, Llanybyther. Gwanaidd fu iechyd yr ymadawedig am flynyddoedd, a gorfodwyd ei symud i'r *Mental Hospital* yng Nghaerfyrddin beth amser yn ol lle y bu farw. Cludwyd ei gweddillion marwol i Llwynrhydowen y dydd Iau dilynol, a gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. E. O. Jenkins. Gadawodd un brawd a modryb oedranus mewn hiraeth o'i cholli.

MANION AC HANESION.

LLANDYSSUL—Sul, Hydref 9, ym mhresenoldeb cynnulleidfa fawr, dadorchuddiwyd Maen Coffa o farmor gwyn, i chwech o fechgyn yr eglwys a syrthiasant yn y rhyfel mawr. Yr oedd y capel lawer yn rhy fach i gynnwys y rhai garent fod yn bresenol i dalu eu teyrnged o barch i goffadwriaeth y gwroniaid annwyl hyn. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y gweinidog, tynnwyd y llen oddiar wyneb y maen coffa gan Mrs. James, Brynhyfryd, a chafwyd anerchiad pwrpasol iawn gan Mr. T. Thomas, Cyfreithiwr.

PANTDEFAID A'R GRAIG.—Cynhaliwyd cyfres lwyddianus o gyfarfodydd diolchgarwch am y cynhauaf yn y ddau le uchod Sul, Nos Lun a Nos Fawrth, Hydref 16, 17 a 18. Gwasanaethwyd gan y Parch. T. Oswald Williams, B.A., Llanbedr, a chan y Parch. E. O. Jenkins ym Mhantdefaid nos Sul.

HEN-DY-CWRDD, ABERDAR—Cynhaliwyd Gwyl De flynyddol Ysgol Sul y lle uchod. Rhoddwyd y wledd eleni gan Mr. a Mrs. Gwilym Griffiths, Irvon Villa, Ysgrifennydd yr eglwys. Daeth llawer ynghyd i gyfrannu o'r danteithion oedd wedi eu parótoi, a chanmoliaeth oedd gan bawb i'r hyn a wnaed. Gweinyddwyd wrth y byrddau gan amryw o foneddigesau yr eglwys. Ar y terfyn rhoddwyd pleidlais o ddiolchgarwch i'r rhoddwyr am eu caredigrwydd. Gobeithiwn y gwel rhywun yn dda i gofio am y plant y flwyddyn nesaf eto.

LLWYNRHYDOWN A BWLCHYFADFA—Cynhaliwyd Cyfarfodydd Diolchgarwch am y cynhauaf yn y lleoedd uchod nos Iau a nos Wener, Medi 29 a 30, pryd y daeth cynulliadau lluosog ynghyd. Y pregethwr eleni oedd y Parch. D. Conwil Evans, Ciliau a Rhydygwin.

J. D. Lewis, Argraffydd, &c., Gwasg Gomer, Llandyssul.

Just Published by THE LINDSEY PRESS.

The New Testament & Modern Life

By S. H. MELLONE, M.A., D.Sc.

Cr. 8vo. 280 p.p. Cloth, 6/- net.

Prof. JAMES MOFFAT, M.A., D.Litt., writing in the *British Weekly*, says:—"It is a genuine pleasure to read Dr. S. H. Mellone's new book . . . he applies critical judgment to the records, and combines with it a fine moral judgment, which enables him to present positive results. . . . I call it without hesitation a good book, not because it always convinces, but because its method is trustworthy, and its outlook so sane."

The *Times Literary Supplement* speaks of Dr. Mellone's book as "an acute and scholarly study," and the *Glasgow Herald* describes it as "both a live and a learned book."

In this book the author's endeavour has been to indicate as concisely and as clearly as possible the ethical import of the most significant parts of the New Testament, and the directions in which the resulting principles bear upon modern life and civilisation.

The Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, London, W.C. 2.

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

. . . Fruit Trees, Roses and Shrubs. . . .

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman Established 1875.)

Nurseryman, Seedsman and Florist, Carmarthen.

Telegrams—Coysh, Carmarthen

CHANNING HOUSE.

High School for Girls and Unitarian Boarding School

HIGHGATE, LONDON, N.

Head Mistress: Miss LILIAN TALBOT, B.A. Honours (Lond.),
To whom all enquiries should be addressed.

Fees per Term: Boarders, £19 5s.; with Music, £21 7s. Daughters of Unitarian Ministers, £10 13s. 6d.; with Music, £12 5s. Day Scholars, Three to Six Guineas. The above Fees include all Classes for London Matriculation, also Drawing & Class Singing.

☞ Good Playground, Cricket, Tennis, Lacrosse.

☞ Opportunities afforded for Sight-seeing in London.

Committee of Management—Mrs. W. Blake Odgers, F. J. Nettlefold, Esq., T. B. Taylor, Esq., W. A. Sharpe, Esq., Miss C. Sharpe, Harold Wade, Esq., Mrs. W. Wooding, R. M. Montgomery, Esq., K.C., Mrs. H. Foster Morley.

LONDON JOINT CITY AND MIDLAND BANK LIMITED

CHAIRMAN

The Right Hon. R. McKenna

JOINT MANAGING DIRECTORS:

S. B. Murray F. Hyde E. W. Woolley

Subscribed Capital	**£38,116,815**
Paid-up Capital	**10,860,565**
Reserve Fund	**10,860,565**
Deposits *(June 30th, 1921)* ..	**371,322,381**

Llandyssul Office: 9, Lincoln Street

Manager: T. M. JONES

Over 1550 Offices in England and Wales

Head Office:

5, Threadneedle Street, London, E.C.2

YR YMOFYNYDD

RHYDDID · GWIRIONEDD · CARIAD

Y Gwirionedd a'ch Rhyddha chwi.

RHIF 12] RHAGFYR 1921. [PRIS 3c.

.. CYNHWYSIAD. ..

AR ADEN FFYDD.
Y DWR LLWYD.
TY AR Y TYWOD.
BRASLUN O'R GWERSI.
BYWYD.
PREGETH.
PRIODASAU.
MARWGOFION.
MANION AC HANESION.

Llandyssul:
Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer.

YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.

Pris 3c. y mis; drwy y *Post*, 3s. 6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Telerau i Ddosparthwyr, 13 am bris dwsin o gopiau

Yr erthyglau i fod yn llaw y Golygydd erbyn y 10fed o bob mis, a gohebiaethau eraill erbyn y 15fed.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

GWEITHIAU DR. TUDOR JONES

An Interpretation of Rudolf Eucken's Philosophy.
Price - - 5s.

The Spiritual Ascent of Man.
Price - - 2s. 6d.

The Training of the Mind and Will.
Price - - 2s. 6d.

The Making of Personality.
Price - - 2s. 6d.

What Philosophy is.
Price - - 2s. 6d.

Yr oll i'w cael o—

SWYDDFA'R YMOFYNYDD, LLANDYSSUL.

T. E. Jones & Co.,

— **LLANDYSSUL.** —

Flour Millers - - -
& Provender Millers, - -
Merchants, - - - -
Wholesale Grocers, &c. &c.